CANLLAWIAU CRYNO AR Y RHEOLIADAU HYLENDID BWYD NEWYDD AR GYFER BUSNESAU SY'N CYNHYRCHU NEU'N TRAFOD BWYD SY'N DOD O ANIFEILIAID[1] (AC EITHRIO BWYTAI, ARLWYWYR A BUSNESAU SY'N GWERTHU BWYD I'R DEFNYDDIWR TERFYNOL)

NODYN AR Y CANLLAWIAU HYN

Bwriad y canllawiau hyn yw'ch helpu chi i ddeall prif ofynion y ddeddfwriaeth hylendid newydd. Dylid eu defnyddio ar y cyd gyda'r ddeddfwriaeth a chyda canllawiau mwy cynhwysfawr yr ASB. (gweler "Manylion" isod).

CYFLWYNIAD

1. Os ydych yn berchen ar fusnes sy'n cynhyrchu neu'n trafod bwyd sy'n dod o anifeiliaid, neu os ydych yn bwriadu dechrau busnes o'r fath, rhaid i chi gydymffurfio â rheolau hylendid er mwyn sicrhau bod y bwyd wedi'i gynhyrchu'n ddiogel. Newidiodd y rheolau hyn ar 1 Ionawr 2006. Er nad yw llawer o'r rheolau wedi newid ers y gofynion blaenorol, mae yna rai gwahaniaethau.

2. Mae'r rheolau newydd (a ddisgrifir ar ddiwedd y canllawiau hyn) yn dwyn yr holl ofynion hylendid ar gyfer cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid ynghyd, yn hytrach na gosod gofynion ar wahân ar gyfer sectorau penodol. Mae'r canllawiau hyn yn amlinellu'ch dyletswyddau cyfreithiol ac yn cyfeirio at ffynonellau eraill a all roi canllawiau pellach i chi. Mae canllawiau pellach ar ofynion y ddeddfwriaeth hylendid bwyd newydd wedi'u cynnwys yn "Canllawiau yr ASB ar ofynion deddfwriaeth hylendid bwyd" (gweler "Manylion" isod).

3. Er nad yw'r canllawiau hyn yn gyfraith gwlad, maent yn cynrychioli barn yr Asiantaeth, a'u nod yw darparu cyngor a gwybodaeth i fusnesau bwyd am y rheolau hylendid bwyd newydd. Dim ond y llysoedd, serch hynny, sy'n gallu deddfu ar y gyfraith.

4. Os ydych yn cynhyrchu neu'n trafod cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid (ac eithrio eu gwerthu i'r cwsmer terfynol yn unig), gan amlaf bydd rhaid i'ch safle gael ei gymeradwyo. Caiff y rheolau perthnasol eu disgrifio yn "Canllawiau yr ASB ar ofynion deddfwriaeth hylendid bwyd" (gweler "Manylion" isod). Rhaid i chi roi nod adnabod ar eich cynnyrch, (neu nod iechyd ar gyfer carcasau cig coch - gweler paragraff 9 i gael gwybodaeth am nodau iechyd). Rhaid i chi gydymffurfio â'r gofynion hylendid cyffredinol ac â rhai gofynion penodol sy'n amrywio yn ôl yr hyn sy'n cael ei gynhyrchu gennych. Rhaid i chi hefyd roi gweithdrefnau ar waith i reoli diogelwch bwyd yn seiliedig ar egwyddorion HACCP.

[1] Cig ffres (cig wedi'i wahanu'n fecanyddol, briwgig, cynhyrchion cig, paratoadau cig, pysgod cregyn, cynhyrchion pysgod a physgodfeydd, cynhyrchion llaeth a hufenfeydd, wyau a chynhyrchion wyau, cynhyrchion anifeiliaid wedi'u rendro a chynhyrchion amrywiol, gan gynnwys coesau llyffantod a malwod). I gael diffiniadau manwl, gweler y Rheoliadau.

5. Mae rhai bwydydd oedd cyn hyn dan reolaeth gofynion arbennig ar gyfer bwydydd sy'n dod o anifeiliaid bellach yn cael eu rheoli gan ofynion mwy cyffredinol y rheoliadau'n unig. Dyma'r bwydydd sy'n cynnwys cynhyrchion sy'n dod o blanhigion a chynhyrchion wedi'u prosesu sy'n dod o anifeiliaid. Nid oes rhaid i safleoedd sy'n gwneud bwydydd o'r fath gael eu cymeradwyo ac nid oes angen rhoi nod adnabod ar y bwydydd hynny chwaith. Fodd bynnag, rhaid i'r cynhyrchion wedi'u prosesu sy'n dod o anifeiliaid a ddefnyddir i baratoi bwyd o'r fath gydymffurfio â'r gofynion penodol a ddisgrifir ym mharagraff 4 uchod. Er enghraifft, os ydych yn defnyddio tomatos, ham, caws a brwyniaid i wneud pizza wedi'i rewi, nid yw'ch pizza yn gynnyrch sy'n dod o anifeiliaid ac nid oes rhaid iddo gydymffurfio â'r gofynion hynny. Fodd bynnag, byddai'n rhaid i'r ham, caws a'r brwyniaid fod wedi dod o safleoedd cymeradwy sy'n cydymffurfio â'r gofynion[2]. (e.e. os mai chi sy'n cynhyrchu'r ham, rhaid i chi gydymffurfio â'r gofynion ar gyfer cynhyrchu cig a chael eich cymeradwyo ar gyfer y gweithgarwch hwn.)

6. Mae canllawiau pellach i'ch helpu chi i nodi a oes angen i'ch busnes bwyd gydymffurfio â gofynion ar gyfer cynhyrchion o anifeiliaid ar gael yn Atodiad D "Canllawiau yr ASB ar ofynion deddfwriaeth hylendid bwyd".

SICRHAU CYMERADWYAETH AR GYFER EICH SAFLE

7. Ar wahân i ambell eithriad, rhaid i sefydliadau sy'n cynhyrchu bwyd sy'n dod o anifeiliaid gael eu cymeradwyo gan yr awdurdod cymwys. Os oes angen i'ch sefydliad gael ei gymeradwyo, nid oes rhaid i chi ei gofrestru hefyd. Mae cymeradwyaethau newydd dan y ddeddfwriaeth newydd yn disodli cymeradwyaethau blaenorol a thrwyddedau gwaith cig. Os yw'ch sefydliad eisoes wedi'i gymeradwyo neu os oes ganddo drwydded gwaith cig, bydd angen iddo gael ei ail-asesu ar gyfer cymeradwyaeth dan y Rheoliadau newydd. Fodd bynnag, byddwch yn gallu parhau â'ch busnes nes bod yr awdurdod gorfodi yn ymgymryd â'r ail-asesu. Os ydych yn sefydlu busnes newydd, bydd angen i chi wneud cais i'r awdurdod gorfodi perthnasol er mwyn cael eich cymeradwyo cyn y gallwch ddechrau masnachu. Mae Atodiad B "Canllawiau yr ASB ar ofynion deddfwriaeth hylendid bwyd" yn cynnwys gwybodaeth am yr awdurdodau perthnasol.

8. Os yw'ch busnes:

- yn un sydd ond yn cyflenwi helgig gwyllt ar gyfer y farchnad ddomestig; neu'n
- un sy'n torri cig i'w gyflenwi i sefydliadau eraill, gan gynnwys arlwywyr, y tu hwnt i'r trothwy "ymylol" (gweler Atodiad H "Canllawiau yr ASB ar ofynion deddfwriaeth hylendid bwyd" am fanylion pellach); neu'n
- un sy'n cynhyrchu briwgig a pharatoadau cig ar gyfer y farchnad ddomestig; neu'n
- storfa oer ar gyfer cig nad oedd angen trwydded ar ei gyfer, neu'n
- sefydliad sy'n graddio neu'n pacio wyau

[2] Sef eich safle chi os ydych yn prosesu bwydydd sy'n dod o anifeiliaid cyn i chi wneud bwydydd sy'n cynnwys cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid ac o blanhigion.

ac sydd ond wedi gorfod cofrestru yn y gorffennol, bydd angen iddo gael ei gymeradwyo bellach, gan yr ASB yn y ddau achos cyntaf a gan yr awdurdod bwyd yn y trydydd, pedwerydd a'r pumed achos oni bai ei fod wedi'i leoli ar yr un safle â lladd-dy, gwaith torri neu sefydliad trafod anifeiliaid hela. Mewn achosion o'r fath bydd hefyd yn cael ei gymeradwyo gan yr ASB yn hytrach na'r awdurdod bwyd.

NODAU ADNABOD

9. Rhaid i gig coch (gan gynnwys anifeiliaid hela wedi'u ffermio, carcasau helgig gwyllt mawr a thoriadau cyfanwerth) fod â nod iechyd, a'r milfeddyg swyddogol sy'n gyfrifol am wneud hyn. Mewn pob achos arall, rhaid i gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid fod â nod adnabod, gan ddangos rhif cymeradwyo neu rif trwydded y safle. Mae'r rheolau yn ymwneud â nodau adnabod wedi'u cynnwys yn Erthygl 5 ac Atodiad II, Adran I Rheoliad (CE) Rhif 853/2004. Mae cyfnod pontio wedi'i sefydlu lle mae modd defnyddio hen nodau a deunydd pacio sydd wedi'i argraffu'n barod. Mae manylion pellach wedi'u cynnwys yn Atodiad I "Canllawiau yr ASB ar ofynion deddfwriaeth hylendid bwyd".

GOFYNION HYLENDID

10. Er mwyn cynhyrchu bwyd yn ddiogel, rhaid i chi sicrhau bod eich safle a'r ffordd rydych chi'n cynhyrchu'r bwyd yn hylan. Rhaid i chi sicrhau bod eich safle yn lân a bod eich cyfarpar yn addas at y gwaith. Rhaid trafod bwydydd mewn modd hylan. Rhaid i staff gael eu goruchwylio'n briodol, a chael eu cyfarwyddo a/neu eu hyfforddi ym maes hylendid bwyd fel y gallant gyflawni'u gwaith mewn ffordd hylan. Mae angen i'r sawl sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y weithdrefn y cyfeirir ati ym mharagraff 12 a 13 isod fod wedi derbyn hyfforddiant addas. Mae Atodiad II Rheoliad (CE) Rhif 852/2004 yn disgrifio'r gofynion cyffredinol y mae'n rhaid i chi gydymffurfio â hwy. Mae Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 yn pennu gofynion perthnasol pellach ar gyfer cynhyrchion gwahanol, fel a ganlyn:

Lladd, trin a thorri cig	Atodiad III	Adran I-IV
Briwgig, Paratoadau cig ac ati	Atodiad III	Adran V
Cynhyrchion cig	Atodiad III	Adran VI
Molysgiaid dwygragennog byw	Atodiad III	Adran VII
Cynhyrchion pysgodfeydd	Atodiad III	Adran VIII
Cynhyrchion llaeth amrwd a hufenfeydd	Atodiad III	Adran IX

Wyau a chynhyrchion wyau	Atodiad III	Adran X
Malwod a choesau llyffantod	Atodiad III	Adran XI
Braster anifeiliaid wedi'i rendro a chriwsion	Atodiad III	Adran XII
Stumogau, pledrau a pherfeddion wedi'u trin	Atodiad III	Adran XIII
Gelatin	Atodiad III	Adran XIV
Colagen	Atodiad III	Adran XV

11. Mae'r ASB yn cyhoeddi amrywiaeth eang o ganllawiau i'ch helpu i wneud bwyd yn ddiogel. Mae Atodiad B "Canllawiau'r ASB ar ofynion deddfwriaeth hylendid bwyd" yn nodi canllawiau'r ASB ynghyd â lle i ddod o hyd iddynt. Hwyrach y bydd gan eich Awdurdod Lleol neu'ch cymdeithas fasnach wybodaeth bellach (os ydych yn aelod).

RHEOLI DIOGELWCH BWYD

12. Nid yw cynhyrchu bwyd yn ddiogel yn digwydd ar hap. Rhaid i chi reoli'r broses er mwyn gwarchod eich cwsmeriaid a'ch enw da ac er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith. Mae'r rheolau hylendid yn mynnu bod gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd ar waith sy'n seiliedig ar egwyddorion HACCP. I rai sectorau roedd hyn eisoes yn ofyniad cyfreithiol.

13. Bydd angen i'ch gweithdrefnau ddangos y canlynol i'ch swyddog gorfodi;

- Mae unrhyw beryglon posib ar eich safle i ddiogelwch bwyd yn cael eu nodi ("Beth all fynd o'i le, pryd a sut?")

- Mae systemau rheoli ar waith i ymdrin â'r peryglon hyn. ("Beth alla' i wneud amdano a ble?")

- Mae systemau rheoli ar waith ac yn cael eu gwirio. Os aiff rhywbeth o'i le mae pawb yn gwybod y drefn ac yn ei rhoi ar waith. ("Beth sy'n dderbyniol?" "Sut alla' i wneud yn siŵr?" "Beth alla' i wneud amdano?")

- Mae gweithdrefnau'n cael eu diweddaru. ("Os bydda' i'n newid fy ffordd o baratoi bwyd, oes angen i mi newid fy systemau diogelu bwyd?")

- Mae cofnodion yn cael eu cadw er mwyn nodi'r gweithdrefnau. ("Pa gofnodion ddylwn i eu cadw er mwyn nodi fy ngweithdrefnau?")

- Mae cofnodion yn cael eu cadw er mwyn dangos bod y gweithdrefnau'n effeithiol. ("Pa gofnodion ddylwn i eu cadw er mwyn dangos bod fy ngweithdrefnau'n effeithiol a bod unrhyw broblemau wedi'u datrys"?)

Mae'r union ofynion wedi'u cynnwys yn Erthygl 5 Rheoliad (CE) Rhif 852/2004. Yn ogystal, rhaid i weithdrefnau lladd-dai gydymffurfio ag Atodiad II, Adran II Rheoliad (CE) Rhif 853/2004.

14. Mae cyngor cyffredinol gan yr ASB ar reoli diogelwch bwyd ynghyd â chymorth pellach i fusnesau ar gynhyrchu bwyd yn ddiogel ar gael ar y wefan yn www.food.gov.uk/foodindustry/hygiene. Mae canllawiau ar gyfer gweithfeydd cig ar gael yn: www.food.gov.uk/foodindustry/meat/draftguidehygienemeat.

CANLLAWIAU ARFERION DA

15. Mae'r rheoliadau hylendid bwyd yn darparu ar gyfer datblygu canllawiau ar arferion hylendid da ac ar gyfer rhoi egwyddorion HACCP ar waith. Gall gweithredwyr busnesau bwyd ddefnyddio'r canllawiau hyn yn wirfoddol i'w cynorthwyo i gydymffurfio â'u dyletswyddau dan y ddeddfwriaeth hylendid bwyd. Rhaid i swyddogion gorfodi roi ystyriaeth i'r canllawiau hyn wrth asesu cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd. Mae gwybodaeth bellach am ganllawiau arferion da ar gael ar wefan yr ASB yn www.food.gov.uk/foodindustry/hygiene/goodpractice.

MANYLION

Mae'r rheolau y cyfeirir atynt yn y canllawiau hyn yn cael eu cynnwys yn:

- Rheoliad (CE) Rhif 852/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar hylendid bwydydd; a

- Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor yn pennu rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid

Yn ogystal, mae gofynion penodol ar gyfer rheolaeth swyddogol o gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid wedi'u pennu yn:

- Rheoliad (CE) Rhif 854/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor yn pennu rheolau penodol ynglŷn â threfniadau swyddogol ar gyfer cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid i'w bwyta gan bobl.

Cyhoeddwyd y ddeddfwriaeth hon yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd ar 30 Ebrill 2004, L139. Cyhoeddwyd fersiynau wedi'u cywiro yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd ar 25 Mehefin 2004, L226.

Yn ogystal, mae nifer o fesurau manylach wedi'u cyhoeddi, gan gynnwys mesurau dros dro a mesurau i'w rhoi ar waith, sef:

- Rheoliad Rhif 1688/2005 y Comisiwn (CE) yn gweithredu Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar warantau arbennig ynghylch salmonela ar gyfer llwythi o rai mathau o gig ac wyau i'r Ffindir a Sweden;

- Rheoliad Rhif 2073/2005 y Comisiwn (CE) ar feini prawf microbiolegol ar gyfer bwydydd;

- Rheoliad Rhif 2074/2005 y Comisiwn (CE) yn pennu mesurau gweithredu ar gyfer rhai cynhyrchion penodol dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004, ar gyfer trefniadaeth rheolaethau swyddogol dan Reoliadau (EC) Rhifau 854/2004 a 882/2004, yn rhanddirymu Rheoliad (CE) Rhif 852/2004 ac yn diwygio Rheoliadau (CE) Rhifau 853/2004 a 854/2004;

- Rheoliad Rhif 2075/2005 y Comisiwn (CE) yn pennu rheolau penodol ar gyfer rheolaethau swyddogol *Trichinella* mewn cig; a

- Rheoliad Rhif 2076/2005 y Comisiwn (CE) yn pennu trefniadau trosiannol ar gyfer gweithredu Rheoliadau (CE) Rhif 853/2004, (CE) Rhifau 854/2004 a 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ac yn diwygio Rheoliadau (CE) Rhifau 853/2004 a 854/2004.

Cyhoeddwyd Rheoliad 1688/2005 yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd ar 15 Hydref 2005, L271. Cyhoeddwyd Rheoliadau 2073/2005, 2074/2005, 2075/2005 a 2076/2005 yn y Cyfnodolyn ar 22 Rhagfyr 2005, L 338.

Os am weld copïau o Reoliadau'r CE mewn fformat pdf ewch i wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn:

www.food.gov.uk/foodindustry/regulation/europeleg/eufoodhygieneleg/

Os am weld copïau o'r Cyfnodolyn Swyddogol ewch i wefan yr Undeb Ewropeaidd yn:

www.europa.eu.int/eur-lex/lex/JOIndex.do?ihmlang=en

Dyma'r deddfau perthnasol yn y DU:

- Rheoliadau Hylendid Bwyd (Lloegr) 2006 (OS 2006/14)
- Rheoliadau Hylendid Bwyd (Yr Alban) 2006 (OS yr Alban 2006/3)
- Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 (OS 2006/31 (W.5))
- Rheoliadau Hylendid Bwyd (Gogledd Iwerddon) 2006 (SR 2006/3)

Mae copïau ar gael gan Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus. Er mwyn eu gweld, ewch i'r wefan ganlynol:

www.opsi.gov.uk

Mae canllawiau manwl ar gael yn "Canllawiau yr ASB ar ofynion deddfwriaeth hylendid bwyd" ar wefan yr ASB yn:

http://www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/fsaguidefoodleg.pdf